Annwyl Gwsmer

# Ymgynghoriad cyhoeddus lleol – Dweud eich dweud

**Swyddfa Bost Wepre**

**92 y Stryd Fawr, Cei Conna, Glannau Dyfrdwy, CH5 4DD**

Rydym yn cynnig symud y gangen uchod o Swyddfa'r Post i leoliad newydd - 15 Chester Road West, Shotton, Cei Conna, Glannau Dyfrdwy, CH5 1DF, (hen fanc y Natwest), lle byddai'n gweithredu fel un o'n prif ganghennau a byddai'n cael ei alw'n Swyddfa Bost Shotton, yn dibynnu ar ymgynghoriad.

**Pam ydym yn cynnig y cam hwn?**

Fel y gwyddoch, mae ein Partneriaid yn gweithredu canghennau Swyddfa'r Post ar y cyd â'u busnesau manwerthu preifat, ac mae'n bwysig eu bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'u hadnoddau i sicrhau cynaliadwyedd eu busnes a gwasanaeth Swyddfa'r Post i'r dyfodol. Yn yr achos hwn, mae'r postfeistr wedi nodi cyfle i symud y gangen hon i leoliad amgen er mwyn parhau i gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post i'r gymuned leol.

Byddai'r eiddo arfaethedig, sydd yn wag ar hyn o bryd, yn cael ei adnewyddu i ymgorffori siop gardiau a deunydd ysgrifennu gyda Swyddfa Bost Shotton. Mae'r postfeistr yn credu'n gryf y bydd y cam hwn yn helpu i sicrhau mynediad parhaus i wasanaethau Swyddfa'r Post yn lleol, yn ogystal â chefnogi hyfywedd eu busnes.

Ein blaenoriaeth yw diogelu ein gwasanaethau yn y lleoliad yn y tymor hwy a byddai adleoli Swyddfa Bost Wepre yn ein galluogi i gynnal gwasanaeth Swyddfa'r Post i'n cwsmeriaid yn y gymuned leol.

**Rydym eisiau eich cymorth chi**

Rydym bellach yn dechrau ar gyfnod ymgynghoriad cyhoeddus lleol ac mae eich adborth yn bwysig i ni am y bydd yn helpu i lywio eich penderfyniad. Am fwy o fanylion am y gwasanaethau arfaethedig a hygyrchedd, gweler y wybodaeth gryno am y gangen yn nes ymlaen yn y ddogfen ymgynghori hon.

**Ar beth yn union ydym ni'n ymgynghori?**

Byddem yn croesawu eich sylwadau ar y meysydd canlynol:

- **Pa mor hawdd yw hi i gyrraedd y lleoliad newydd arfaethedig?**
- **A yw'r eiddo newydd yn hawdd i chi fynd i mewn iddo ac a yw'n hygyrch unwaith eich bod y tu mewn?**
- **A oes unrhyw faterion eraill yn y gymuned leol y credwch allai effeithio ar neu gael eu heffeithio gan y cam arfaethedig i symud Swyddfa'r Post?**
- **Pe byddai'r symud yn mynd yn ei flaen, a oes unrhyw beth y gallem ei wneud i'w wneud yn haws i gwsmeriaid?**

| | |
|---|---|
| Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dechrau | **Dydd Gwener 29 Tachwedd 2024** |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dod i ben | **Dydd Gwener 10 Ionawr 2025** |
| Mis arfaethedig y newid | **Ionawr/Chwefror 2025** |

Gallwch rannu eich safbwyntiau ar y newid arfaethedig trwy ein holiadur hawdd a chyfleus ar-lein yn postofficeviews.co.uk. Wrth fynd i mewn i'r wefan, gallwch ddefnyddio'r swyddogaeth chwilio i ddod o hyd i'r ymgynghoriad ar gyfer y gangen hon naill ai yn ôl enw'r gangen, cod post neu god unigryw y gangen **355614**

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office 100 Wood Street, London, EC2V 7ER.
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.

**Sut i rannu eich barn:**
**Hwb Ymgynghori (postofficeviews.co.uk)**
comments@postoffice.co.uk
Ffoniwch: 03452 66 01 15
Ffôn Testun: 03457 22 33 55
RHADBOST Eich Sylwadau – D.S. Dyma'r cyfeiriad post llawn. Mae eitemau a anfonir trwy Rhadbost yn cymryd 2 ddiwrnod gwaith, caniatewch ddigon o amser i ymatebion gael eu derbyn.

**Eisiau rhoi eich barn yn y fan a'r lle? Sganiwch yma.**
Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch ddod o hyd i un yn eich app store.

**Da i wybod**

- Byddai cwsmeriaid yn defnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post mewn amgylchedd modern, cynllun agored ar y cyd â chyfleuster manwerthu'r gweithredwr.
- Gan weithio gyda'r postfeistr, byddem yn addasu cynllun presennol y siop, y gosodiadau a'r dodrefn i ddarparu ar gyfer Swyddfa'r Post. Byddai'n ardal neilltuol o'r siop gydag un safle â sgrîn ac un safle agored.
- Byddem hefyd yn ychwanegu til Swyddfa'r Post â sgrîn isel, modern wrth y cownter manwerthu yn cynnig y rhan fwyaf o wasanaethau a chynnyrch Swyddfa'r Post, fel bod cwsmeriaid yn gallu defnyddio eu Swyddfa Bost pan fydd yn gyfleus. Mae bodlonrwydd cwsmeriaid â'r math yma o gangen yn uchel.
- Mae gan y gangen bresennol beiriant arian parod allanol brand Swyddfa'r Post, ond nid ydym yn gwybod eto a fyddwn yn gallu trosglwyddo'r cyfleuster hwn i'r safle arfaethedig.
- Byddai posteri a thaflenni nawr yn cael eu harddangos yn y gangen i roi gwybod i gwsmeriaid am y cynnig ac i ofyn eu barn.
- Bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn ei derbyn yn cael ei hystyried yn ofalus wrth i ni derfynu ein cynlluniau.
- Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddwn yn ysgrifennu atoch eto ar ddiwedd yr ymgynghoriad i ymateb i'r prif faterion a godwyd ac i esbonio ein cynlluniau terfynol ar gyfer y gangen.
- Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu Cymunedol sydd wedi eu cytuno gyda Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a General Consumer Council for Northern Ireland – y cyrff eiriolaeth defnyddwyr statudol annibynnol. Mae detholiad yn ymwneud â'r Ymgynghoriad ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn.

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn gallu rhannu'r wybodaeth hon trwy eich cyfryngau cymdeithasol a chydag unrhyw grwpiau neu sefydliadau yr ydych yn gwybod amdanynt yn y gymuned, er enghraifft ar hysbysfyrddau, elusennau lleol ac mewn meddygfeydd, i helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr i ddeall beth sy'n digwydd i Swyddfa'r Post yn y gymuned leol. Os hoffech gyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni.

Diolch am ystyried ein cynnig.

Yn gywir

*Sarah Cottrell*

**Sarah Cottrell**
**Rheolwr Newid Rhanbarthol**
**Swyddfa'r Post Cyfyngedig**

# Gwybodaeth Gryno am Swyddfa Bost Shotton

**Mae amserau pan fydd angen i'n canghennau newid eu horiau agor. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar gael ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder**

| Lleoliad Presennol | Lleoliad Newydd Arfaethedig |
|---|---|
| 92 Y Stryd Fawr, Cei Conna, Glannau Dyfrdwy, CH5 4DD | 15 Chester Road West, Shotton, Cei Conna, Glannau Dyfrdwy, CH5 1DF |

**Amserau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 08:00 – 16:30 |
| Dydd Mawrth | 08:00 – 16:30 |
| Dydd Mercher | 08:00 – 16:30 |
| Dydd Iau | 08:00 – 16:30 |
| Dydd Gwener | 08:00 – 16:30 |
| Dydd Sadwrn | 09:00 – 13:00 |
| Dydd Sul | Ar gau |

**Amserau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 08:00 – 17:00 |
| Dydd Mawrth | 08:00 – 17:00 |
| Dydd Mercher | 08:00 – 17:00 |
| Dydd Iau | 08:00 – 17:00 |
| Dydd Gwener | 08:00 – 17:00 |
| Dydd Sadwrn | 09:00 – 13:00 |
| Dydd Sul | Ar gau |

**Cynnyrch a Gwasanaethau**

Byddai'r un ystod o gynnyrch a gwasanaethau yn dal i fod ar gael.

**Safleoedd gwasanaeth**

Byddai tri safle gwasanaeth i gyd: un â sgrîn ac un â chynllun agored a man gwasanaeth Swyddfa'r Post wrth y cownter manwerthu.

**Mynediad**

Byddai gan yr eiddo arfaethedig ddrws awtomatig llydan a mynediad gwastad wrth y fynedfa.
Y tu mewn, byddai dolen glyw, desg ysgrifennu isel, cownter gwasanaethu isel a lle ar gyfer cadair olwyn.

**Cyrraedd yno**

Byddai'r gangen newydd arfaethedig wedi eu lleoli tua 750 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tirwedd gwastad yn bennaf.

Mae parcio wedi ei gyfyngu gan amser ar gael gerllaw ar Alexandra Street.
Mae nifer o feysydd parcio Talu ac Arddangos ar gael yn yr ardal gyfagos gyda pharcio anabl neilltuol, wedi ei leoli ar Charmleys Lane, King George Street ac Alexandra Street.

| Manwerthu ar gael | Cardiau a deunydd ysgrifennu |
|---|---|

**I gael y wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, mewn print mwy, ar sain neu mewn braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu ffôn testun 03457 22 33 55.**

**Am wybodaeth ychwanegol am argaeledd cynnyrch ffoniwch 03457 223344.**
**Am fanylion uchafswm gwerth trafodion, siaradwch â phostfeistr y gangen.**

| Cynnyrch a Gwasanaethau | Cangen Bresennol | Cangen Arfaethedig |
|---|---|---|
| **Bancio Personol a Busnes Bob Dydd** | | |
| Codi Arian | ✓ | ✓ |
| Talu Arian Parod i Mewn | ✓ | ✓ |
| Talu Sieciau i Mewn | ✓ | ✓ |
| **Post** | | |
| Drop & Go | ✓ | ✓ |
| Gwasanaethau Parcelforce Express | ✓ | ✓ |
| DPD – Prynu yn y gangen | ✓ | ✓ |
| DPD – Gollwng a Chasgliadau | ✓ | ✓ |
| **Talu Biliau ac Ychwanegu** | | |
| Talu Biliau ac Ychwanegu | ✓ | ✓ |
| **Gwasanaethau Hunaniaeth** | | |
| Ardystio Dogfennau | ✓ | ✓ |
| **Gyrru** | | |
| Treth Cerbyd | ✓ | ✓ |
| **Teithio** | | |
| Arian Tramor | **Ewros / Doleri** | **Ewros / Doleri** |
| Yswiriant Teithio | ✓ | ✓ |
| Cerdyn Arian Teithio | ✓ | ✓ |
| **Eich Cyllid** | | |
| MoneyGram® | ✓ | ✓ |
| Western Union | ✓ | ✓ |
| Ffurflenni Cais Cynilion | ✓ | ✓ |
| Dilysu Prawf Hunaniaeth Cyfrif Cynilion (am ddim) | ✓ | ✓ |
| ATM – 24 awr | ✓ | **I'w gadarnhau** |

| | |
|---|---|
| Mae gwasanaethau nad ydynt ar gael yn y gangen newydd arfaethedig ar gael yn | **Swyddfa Bost Cei Conna**: Uned 4-5, Red Hall Precinct, Cei Conna, Glannau Dyfrdwy, CH5 4TS<br>Oriau agor: Llun - Sad 06:00 – 22:00<br>Sul - Ar gau |

<u>Egwyddorion Ymgysylltu Cymunedol ar newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)</u>

*Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Hwb Ymgynghori - postofficeviews.co.uk*

**Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu a chefnogi ein cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Bydd yr Egwyddorion canlynol yn cael eu mabwysiadu wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen leol o Swyddfa'r Post.**

*Byddwn yn **Ymgynghori** – pan fyddwn eisiau adborth ar gynigion cyn gwneud penderfyniad ar:*

- Gau cangen o Swyddfa'r Post yn barhaol[5]
- Adleoli cangen o Swyddfa'r Post yn barhaol (yn cynnwys rhyddfreinio cangen wedi ei Rheoli yn Uniongyrchol i safle newydd)

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros chwe wythnos[6], yn hysbysu cwsmeriaid, cynrychiolwyr sydd wedi eu hethol yn lleol, Cyrff Eiriolaeth Defnyddwyr, ac elusennau dethol am y cynnig. Bydd y wybodaeth hefyd ar gael ar-lein ac ar gyfer cangen a Reolir yn Uniongyrchol, bydd datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi i'r cyfryngau lleol. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr a etholwyd yn lleol i rannu gwybodaeth mewn mannau cymunedol allweddol eraill (fel hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd ac ati).

Bydd yr ymgynghoriad yn gofyn cwestiynau penodol ar feysydd lle byddem yn hoffi adborth ar fynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post a byddwn yn cadarnhau pryd bydd y newid yn digwydd os gwneir y penderfyniad i barhau. Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal â mynediad i'r gangen newydd ac i mewn iddi.

Rydym yn croesawu pob adborth ac yn ystyried y ffactorau canlynol wrth wneud ein penderfyniad, yr ydym yn disgwyl ei wneud o fewn pedair wythnos i gau'r ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i, i mewn i a'r tu mewn i'r gangen/canghennau newydd neu amgen gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai effeithio ar neu gael eu heffeithio gan y cynnig

Ar ddiwedd y broses ymgynghori byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr a etholwyd yn lleol, Cyrff Eiriolaeth Defnyddwyr, ac ymatebwyr yr ymgynghoriad (lle bo'n ymarferol) i gadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd gydag ymateb clir i bob un. Bydd y wybodaeth hon ar gael ar-lein ac mewn cangen (lle bo'n bosibl).

***Mae'r Egwyddorion hyn wedi cael eu cytuno gyda Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a'r General Consumer Council for Northern Ireland, cyrff eiriolaeth defnyddwyr statudol annibynnol.***

<u>Beth i'w wneud os nad ydych yn teimlo bod yr Egwyddorion hyn wedi cael eu dilyn:</u>
Cysylltwch â ni er mwyn i ni allu ymchwilio i'ch cwyn. Byddwn yn esbonio yn ein hateb a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu Cymunedol a byddwn yn rhoi manylion cyswllt y corff eriolaeth defnyddwyr perthnasol (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland, neu'r Consumer Council for Northern Ireland) os nad ydych yn fodlon gyda'n hymateb. Bydd y corff eriolaeth defnyddwyr yn asesu'n annibynnol a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu Cymunedol (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw gamau gweithredu o ran y gŵyn.

| | |
|---|---|
| **Postofficeviews.co.uk** | **Ffôn: 03452 66 01 15** |
| **Comments@postoffice.co.uk** | **Ffôn testun: 03457 22 33 55** |
| **RHADBOST Eich Sylwadau** | |

5 Gall fod nifer fach o achsion lle, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nid oes gennym unrhyw opsiwn ar wahân i gau cangen mewn lleoliad penodol. Yn yr achosion hyn, bydd yr ymgynghoriad yn ceisio adborth ar ddarpariaeth amgen gwasanaeth Swyddfa'r Post yn yr ardal.

6 Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf, yn yr Alban a Gogledd Iwerddon a mwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn ymestyn y cyfnod o un wythnos galendr. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus lleol yn ystod y cyfnod o bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.